Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Dafydd Les Hughes 01286 677404
dles@btinternet.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

CÔR MEIBION CAERNARFON YN 50 OED

Trwy gydol 2017 bydd Côr Meibion Caernarfon yn dathlu ei 50fed pen blwydd.

Meddai'r Cadeirydd, Bryn Griffith o Lanllyfni, "Ffurfiwyd y côr yng Nghantîn Ffatri Ferodo ar lannau'r Fenai ar 5 Tachwedd 1967. Caeodd y ffatri, ond rydym ni'n dal yma o hyd!

"Buom yn canu ar brif lwyfannau Prydain a theithio'n helaeth yn Ewrop a Gogledd America. Cawsom lu o wobrau, yn cynnwys naw buddugoliaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

"Dros y blynyddoedd bu gennym naw arweinydd a chwe chyfeilydd. Mae tri o'r aelodau gwreiddiol yn dal yn y rhengoedd.

"Ein cyfarwyddwr cerdd presennol yw Delyth Humphreys, darlithydd cerddoriaeth yn Adran Addysg Prifysgol Bangor. Ymhlith ei rhagflaenwyr mae Menai Williams, Gareth Huws Jones, Bill Evans a'r diweddar Haydn Wyn Davies - pob un ohonynt fel Delyth wedi gosod eu stamp a meithrin safonau uchel.

"Bu Mona Meirion Richards – cyn bennaeth Cerdd Ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon - yn cyfeilio i'r côr ers dros 30 mlynedd. Mae'r cyfeilyddion o'i blaen yn cynnwys Bill Evans, Huw Alan Roberts a'r diweddar Richard Morris (Hogia'r Wyddfa).

"Ein noddwr (patron) yw Syr Bryn Terfel, a wahoddwyd fel unawdydd ifanc addawol i ymuno â'r Cofis ar daith i'r Unol Daleithiau yn 1988. Wnaeth o ddim drwg i'w yrfa!"

Ychwanega Bryn Griffith, "Mae blwyddyn gyffrous yn ein disgwyl yn 2017. Byddwn yn canu mewn cyngerdd yng Ngholeg Cerdd Brenhinol Manceinion ddiwedd Chwefror ac yn cystadlu mewn Gŵyl Gorawl Ryngwladol yng Nghernyw fis Ebrill.

"Bydd cyngerdd mawreddog yn Galeri Caernarfon ar 14 Gorffennaf. Cyn bo hir byddwn hefyd yn rhyddhau CD yr ydym newydd orffen ei recordio.

"Fis Tachwedd, i gyd-fynd â'n hunion ben blwydd, bydd arddangosfa gynhwysfawr yn Oriel Gelf Galeri Caernarfon ynghyd â chinio dathlu mewn gwesty lleol."

Meddai Bryn, "Wrth edrych nôl dros 50 mlynedd, braf edrych ymlaen at ddyfodol disglair hefyd. Rydym yn llwyddo i ddenu cantorion newydd talentog ac mae ein drysau wastad yn agored i rai sy'n mwynhau canu da a chwmnïaeth ddifyr!"

DIWEDD 04/02/17

Mae rhagor o wybodaeth am y côr ar y wefan www.cormeibioncaernarfon.org

English version >>

Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Dafydd Les Hughes 01286 677404
dles@btinternet.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

CÔR MEIBION CAERNARFON – 50 NOT OUT!

Throughout 2017 Côr Meibion Caernarfon will be celebrating the male voice choir's 50th anniversary.

Said choir Chair, Bryn Griffith from Llanllyfni, "We first met in the canteen of the Ferodo Brake Lining Factory on the banks of the Menai Straight on 5 November 1967. The factory has long since closed but the choir sings on!

"We have performed at leading UK venues and have toured extensively in Europe and North America. We have won many competitions, including nine victories at the National Eisteddfod of Wales.

"Over the years we have had nine musical directors and six accompanists. Three of the original members still sing in the choir.

"Our current musical director is Delyth Humphreys, music lecturer in the Education Department of Bangor University. Her predecessors include Menai Williams, Gareth Huws Jones, Bill Evans and the late Haydn Wyn Davies. Like Delyth, they have all made their mark and achieved high standards.

"Mona Meirion Richards - former head of music at Ysgol Syr Hugh Owen Caernarfon - has been our accompanist for over 30 years. Those who came before her include Bill Evans, Huw Alan Roberts and the late Richard Morris (Hogia'r Wyddfa).

"Our patron is Sir Bryn Terfel, who was invited as a promising young soloist to perform with the choir on a tour of the USA in 1988. It did not harm his career!"

Bryn Griffiths added, "2017 will be an eventful year for the choir. We sing in a concert at the Royal Northern College of Music Manchester at the end of February and compete in an International Choral Festival in Cornwall in April.

"We have arranged a big anniversary concert in Galeri Caernarfon on 14 July and plan to release a new CD, which we have just finished recording.

"In November, to coincide with our actual birthday, there will be a week long exhibition of choir history and memorabilia in the Arts Space, Galeri Caernarfon and a celebration dinner in a local hotel."

Bryn stresses, "As we look back over 50 years, Côr Meibion Caernarfon is also looking forward to a successful future. We continue to welcome talented new members and our doors are always open to those who enjoy good singing and good company."

ENDS 04/02/17

For more information about the choir, visit www.cormeibioncaernarfon.org

<<<Cymraeg